

PAGE, LESLIE ALUN (1920-1990), gweinidog (A)

Enw: Leslie Alun Page
Dyddiad geni: 1920
Dyddiad marw: 1990
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog (A)
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Ioan Wyn Gruffydd

Ganwyd Alun Page ym Maesteg, Cwm Llynfi, Morgannwg, lle treuliodd ei blentyndod. Yn wyneb dirwasgiad a diweithdra'r 1920au, symudodd y teulu am gyfnod i Bexley Heath, ar gyrion Llundain, a mynegai ei ddyled fawr i'r dylanwad a gafodd capel ei enwad yn Woolwich arno. Wedi i'r teulu ddychwelyd i Faesteg, dechreuodd bregethu yno yn Noddfa, Cwm-felin. Derbyniodd ei addysg yng Ngholeg Myrddin, ac ym 1937 aeth i Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin, a'r un flwyddyn, i Goleg y Brifysgol, Caerdydd, lle graddiodd yn B.A. mewn Hebraeg ac Athroniaeth ym 1940. Mawr oedd ei ddyled i ddylanwad ei athrawon.

Ym 1945 ordeinwyd ef yn weinidog Eglwys Gynulleidfaol Saesneg Doc Penfro, lle y bu am bedair blynedd. Yr oedd yn un o'r cwmni bach a sefydlodd y cylchgrawn *Dock Leaves* yn y 1940au, y cylchgrawn a ddaeth wedyn yn *Anglo-Welsh Review*. Symudodd i'r Tabernacl, Sgiwen, ym 1949, lle y bu am ddeuddeng mlynedd, cyn symud ym 1961 i Milo a Mynydd Seion, Pen-y-groes, sir Gaerfyrddin. Ei faes olaf oedd y Priordy, Caerfyrddin (1975 -1990). Ychwanegodd at ei ofalaeth ym 1981 eglwys Annibynnol Cana ac eglwys Bresbyteraidd Banc-y-felin.

Darllenai'n eang a myfyrio'n ddwfn yn llenyddiaeth Lloegr a Chymru. Hoffai T. S. Eliot, [Waldo](#) a [Gwenallt](#) a mynych y dyfynnai o'u gwaith. Soniai am fawredd [R. T. Jenkins](#) fel llenor, gan ganmol [D. J. Williams](#) a'i 'filltir sgwâr.' Cafodd Karl Barth gryn ddylanwad arno. Nid dieithr iddo oedd syniadau Freud a Marx. A diolchai i'w athrawon, [T. H. Robinson](#) am wneud proffwydi Israel mor fyw a chyfoes iddo – roedd ganddo gyfaredd arbennig at y proffwyd Amos - a [C. H. Dodd](#) am ei oleuo yn y Testament Newydd. Bu ganddo golofn fywiog am flynyddoedd yn *Y Faner* a bu'n golofnydd hefyd yn *Y Tyst*. Cyfrannodd nifer o erthyglau i *Cristion* yn ogystal â chyhoeddi cyfrolau o ysgrifau ('sylwadaeth') ar bynciau amrywiol, llawer ohonynt yn gyfoes, *Y byd o'r betws* (1971), *Lle Bo'r Gwreiddyn* (1972), *Arwyddion ac amserau* (1979) a chasgliad o gerddi, *Cerddi byd a betws* (1983). Ef oedd Llywydd Undeb yr Annibynwyr 1978-79. Traddododd ei anerchiad o Gadair yr Undeb yn Llandysul ar y testun, Yr Oes Olau Hon (cyhoeddwyd 1978), a bu cryn ddadlau am rai o'r pethau a ddywedodd.

Bu Alun Page farw yn Ysbyty Glanwili, Caerfyrddin, ar 13 Gorffennaf 1990, ac wedi gwasanaeth cyhoeddus yn Y Priordy, rhoed ei weddillion i orffwys ym mynwent Llanybri ar y 18fed o'r mis.

Awdur

Ioan Wyn Gruffydd

Ffynonellau

Ymchwil bersonol

Y Tyst 9 Awst 1990

Blwyddiadur yr Annibynwyr Cymraeg 1991

Y Faner 8 Awst 1990

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20746823](https://www.wikidata.org/wiki/Q20746823)

Dyddiad cyhoeddi: 2011-01-13

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

